# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# DILLAD A FFASIWN

Roedd ffasiwn yr un mor bwysig yn yr Oesoedd Canol ag y mae heddiw. Roedd yr uchelwyr a'r bonheddwyr yn dewis gwisgo eitemau o ddillad rhwysgfawr a drud er mwyn arddangos eu statws. 'Rydym yn gwybod mwy am yr hyn roedden nhw'n gwisgo nag yr ydym am ddillad y werin bobl.

Roedd rhoi eitemau o ddillad, megis mentyll, i'r beirdd yn gyfnewid am eu mawl yn boblogaidd yng Nghymru am ganrifoedd. Yn y $14^{eg}$ ganrif derbyniodd Guto'r Glyn fantell Wyddelig o'r enw *ffaling*, ynghyd â dau bwrs oddiwrth ei noddwyr, ac mae'n disgrifio'r eitemau mewn manylder mawr. Cyn dyfodiad y Normaniaid roedd pobl yn gwisgo dillad syml. Byddai dynion yn gwisgo tiwnigau yn cyrraedd at eu pengliniau, neu'n hirach, ac roedd menywod hefyd yn eu gwisgo, fel arfer gyda thiwnig arall neu ŵn yn ei orchuddio.

O'r $11^{eg}$ i'r $13^{eg}$ ganrif datblygodd dillad i fod yn fwy amrywiol. Roedd dynion yn dal i wisgo tiwnigau ond, yn aml, byddent hefyd yn gwisgo gorchudd ar eu coesau a thiwnig hir, ar fesur o'r enw *cotehardie*. Roedd clogynnau a mentyll hefyd yn ddillad uchaf poblogaidd gan ddynion a menywod fel ei gilydd.



The Lover in the 'Roman de la Rose', manuscript NLW 5016D, f.8., c.14th century (Digital Mirror).
Hawlfraint: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Pais nodweddiadol o fanylyn mewn goliwiad yn dyddio o tua 1400-1409; Sant Jerome yn cael ei Demptio gan Ferched yn Dawnsio.
Limbourg BrotherS 1408 France
https://blog.metmuseum.org/artofillumination/manuscript-pages/folio-186r/

Roedd ffrogau merched yn fwy mesuredig; y ffasiwn oedd y *bliaut*, gŵn tynn wedi'i frodio â phatrymau. Byddent yn gwneud eu dillad o wlân, lliain a sidan ond, erbyn hyn, roedd hi'n fwy-fwy posib prynu sidan, melfed a damasg ym marchnadoedd Cymru, felly byddai'r bobl cyfoethog yn gwisgo'r deunyddiau meinach hyn; roeddent hefyd yn gwisgo dillad brodiog a ffwr.



By Frères Limbourg: Très Riches Heures du duc de Berry - mois de mai - Google Art Project.jpg:, Public Domain, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=27493250

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd cryddion y canol oesoedd yn gwneud esgidiau o ledr, croen, cynfas bras a phren. Nid oedd gwneuthurwyr esgidiau'n ennill llawer o arian, ac roedd rhaid iddynt brynu'r lledr i wneud yr esgidiau.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd esgidiau pigfain yn boblogaidd iawn ymhlith yr ychelwyr. Gelwid yr esgid y *poulaine* neu *crakow*. Er mwyn ennill y siâp pigfain delfyrdol, byddent yn llenwi'r esgidau gyda mwsog, gwair, gwellt, neu hyd yn oed asgwrn morfil.



"Pererin ac Arfwisg" Archiv für Kunst und Geschichte. Berlin. https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Pilgrim_Armour.jpg#/media/File:Pilgrim_Armour.jpg



Enghraifft o esgidiau pigfain ffasiynol
Regnault de Montauban, tome 1er. SYNTHÈSE. Manuscripts. ALL. 809 page(s).  Bibliothèque nationale de France. https://gallica.bnf.fr/ark:/12148/btv1b550071656/f47.image.r=ms%205073.langDE

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd penwisg yn bwysig i ddynion a merched nobl.

Cap tynn oedd y *coiff*, a wisgwyd gan y cyfoethog a'r tlawd ar yr adeg hon.

Byddai dynion yn gwisgo capiau llydan, a'r merched feliau neu wimplau i orchuddio'u gwallt, a phenwisgoedd megis *heninau*, sef hetiau tal, siap côn.

Roedd menywod cyfoethog yn gwisgo penwisgoedd eithafol i arddangos eu cyfoeth. Mae'n debyg y byddai'r fath benwisgoedd yn anghyffyrddus iawn.



Meistr y Cité des Dames;  Llyfr y Frenhines, BL Harley 4431.
. https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Harl_4431_frontispiece_full.jpg

Y testun wedi'i addasu o'r gwefannau:
https://medievalbritain.com
http://www.gutorglyn.net/gutoswales/en/gwisgoedd-dillad.php
https://www.wikiart.org/en/limbourg-brothers/not-detected-265526
https://medium.com/be-open/
https://gallica.bnf.fr/ark:/12148/btv1b550071656/f475.item.zoom